YSTADEGAU

# Amcangyfrifon aelwydydd: canol-2020

Adroddiad sy'n cynnwys gwybodaeth yn ôl math o aelwyd, poblogaeth a maint cyfartalog ay gyfer canol-2020.

Cyhoeddwyd gyntaf: 23 Medi 2021

Diweddarwyd ddiwethaf: 23 Medi 2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Prif bwyntiau

Aelwydydd yng Nghymru

Amcangyfrif awdurdodau lleol o nifer yr aelwydydd

Poblogaeth aelwydydd a'u maint

Cymharu ag amcanestyniadau 2018 o aelwydydd

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt


Mae amcangyfrifon o aelwydydd yn darparu amcangyfrif o nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn seiliedig ar yr amcangyfrifon canol blwyddyn diweddaraf o'r boblogaeth. Maent yn debyg i amcanestyniadau o aelwydydd, ond y gwahaniaeth allweddol rhwng y ddau yw bod yr amcanestyniadau yn seiliedig ar amcanestyniadau o'r boblogaeth yn y dyfodol tra bo'r amcangyfrifon yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r boblogaeth yn y gorffennol.

Mae'r amcangyfrifon diweddaraf o aelwydydd yn seiliedig ar **amcangyfrifon canol 2020 y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r boblogaeth**, a gyhoeddwyd ar 25 Mehefin 2021. Mae'r amcangyfrifon o aelwydydd yn defnyddio data'r cyfrifiadau diweddaraf sydd ar gael o'r boblogaeth ynghylch cyfraddau ffurfio aelwydydd, ac yn eu cymhwyso i amcangyfrifon o'r boblogaeth gyfredol.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Prif bwyntiau


- Rhwng canol 2019 a chanol 2020, cynyddodd nifer yr aelwydydd a amcangyfrifwyd yng Nghymru tua 9,520 (neu 0.7%), i 1.38 miliwn, a hynny yn sgil y cynnydd mewn aelwydydd un person i raddau helaeth.
- Ers i ni ddechrau cyhoeddi amcangyfrifon o aelwydydd yn 1991, mae'r amcangyfrif o nifer yr aelwydydd wedi cynyddu 23.8%, ac ers 2011, mae wedi cynyddu 5.7%.
- Gwelwyd cynnydd yn nifer yr aelwydydd a amcangyfrifwyd ym mhob un o 22 awdurdod lleol Cymru rhwng canol 2019 a chanol 2020.
- Ar lefel Cymru, cynyddodd y nifer yr amcangyfrifir eu bod yn byw ar aelwydydd preifat (neu’r 'boblogaeth aelwydydd') tua 16,500 (0.5%) i 3.1 miliwn.
- Yng nghanol 2020 maint cyfartalog aelwydydd yng Nghymru oedd 2.26 person o gymharu â 2.52 yng nghanol 1991.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Aelwydydd yng Nghymru





Ffynhonnell: Amcangyfrifon aelwydydd Cymru, Llywodraeth Cymru


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Siart 2: Newid canrannol yn y mathau o aelwydydd yng Nghymru rhwng canol-2019 a chanol-2020**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon aelwydydd Cymru, Llywodraeth Cymru

## Ar ganol-2020

- Aelwydydd un oedolyn ac aelwydydd dau oedolyn heb blant oedd y math mwyaf cyffredin o aelwyd o hyd, gan gyfrif am 32.3% a 31.2% o bob aelwyd.
- Nifer yr aelwydydd â phlant oedd 365,000, gan gyfrif am 26.5% o bob aelwyd.
- Gwelwyd cynnydd yn y nifer o aelwydydd a amcangyfrifwyd yn achos pob math o aelwyd o gymharu â chanol 2019.
- Amcangyfrifwyd mai yn nifer yr aelwydydd un oedolyn heb blant yr oedd y cynnydd canrannol mwyaf (cynnydd o 1.1%).
- Amcangyfrifwyd bod nifer yr aelwydydd un oedolyn sydd â phlant wedi cynyddu 0.9% o gymharu â chanol 2019, yn sgil cynnydd yn nifer yr aelwydydd ag un plentyn yn bennaf.
- Amcangyfrifwyd bod aelwydydd heb blant wedi cynyddu tua 8,700 (0.9%) o gymharu â chanol 2019, ac amcangyfrifwyd bod aelwydydd oedolion â phlant wedi cynyddu tua 800 (0.2%).


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.


Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Aelwydydd un person

Amcangyfrifir bod nifer yr aelwydydd un person wedi cynyddu ledled Cymru rhwng canol 2019 a chanol 2020, ac mai nhw yw'r math mwyaf cyffredin o aelwyd o hyd.

Ar lefel Cymru gyfan, gwelwyd cynnydd o tua 4,800 (1.1%) yn y nifer a amcangyfrifir o aelwydydd un person ers canol 2019. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei yrru'n bennaf gan aelwydydd dynion 30 oed neu'n hŷn.

**Siart 3: Amcangyfrif nifer yr aelwydydd un person yn ôl grŵp oedran a rhyw, canol-2020**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon aelwydydd Cymru, Llywodraeth Cymru

### Ar ganol-2020

- Amcangyfrifwyd bod cyfanswm nifer y dynion sy'n byw ar aelwydydd un person wedi cynyddu 1.7% ers canol 2019, a bod nifer y menywod sy'n byw ar aelwydydd un person wedi cynyddu 0.5%.
- Amcangyfrifwyd bod pobl 60 oed neu hŷn yn cyfrif am 53.0% o aelwydydd un person, gyda'r rhai 65 oed hŷn yn cyfrif am 44.4% o aelwydydd un person a phobl 75 oed neu hŷn yn cyfrif am 26.5% o aelwydydd un person.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Yn achos aelwydydd un person grwpiau iau (16 i 59 oed), amcangyfrifir eu bod yn fwy tebygol o fod yn ddynion, ac yn achos grwpiau hŷn (60 oed neu’n hŷn), eu bod yn fwy tebygol o fod yn fenywod.
- Amcangyfrifwyd bod cyfanswm nifer y menywod sy’n byw ar aelwydydd un person yn parhau i fod yn uwch na nifer y dynion sy’n byw ar aelwydydd un person, sef 226,600 ar gyfer menywod o gymharu â 218,700 ar gyfer dynion.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Amcangyfrif awdurdodau lleol o nifer yr aelwydydd

## Siart 4: Newid canrannol yn amcangyfrif nifer yr aelwydydd rhwng canol-2019 a chanol-2020, yn ôl awdurdod lleol




Ffynhonnell: Amcangyfrifon aelwydydd Cymru, Llywodraeth Cymru


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Rhwng canol 2019 a chanol 2020

- Gwelwyd cynnydd yn nifer yr aelwydydd a amcangyfrifwyd ym mhob un o 22 awdurdod lleol Cymru.
- Roedd y cynnydd mwyaf yn nifer yr aelwydydd a amcangyfrifwyd yng Nghaerdydd (tua 1,400), Bro Morgannwg (tua 800) a Chasnewydd (tua 700).
- Roedd y cynnydd canrannol mwyaf ym Mro Morgannwg (cynnydd o 1.5%), Casnewydd (cynnydd o 1.1%) a Thorfaen (cynnydd o 1.0%).
- Bro Morgannwg a Chasnewydd a welodd y cynnydd canrannol mwyaf yn amcangyfrifon canol blwyddyn **amcangyfrifon canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r boblogaeth** yn ystod y cyfnod hwn.


# Poblogaeth aelwydydd a'u maint

Yr amcangyfrif o nifer y bobl sy'n byw ar aelwydydd preifat yw poblogaeth aelwydydd. Cyfrifir hyn drwy dynnu nifer y boblogaeth sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol o'r amcangyfrif o gyfanswm y boblogaeth.

Mae sefydliadau cymunedol yn cynnwys cartrefi gofal preswyl, neuaddau preswyl prifysgolion, ysgolion preswyl a charchardai. Gan nad yw amcangyfrifon o boblogaethau sefydliadau cymunedol ar gael yn flynyddol, cyfrifir niferoedd tybiedig ar sail data'r cyfrifiad.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Siart 5: Newid canrannol yn amcangyfrif poblogaeth aelwydydd rhwng canol-2019 a chanol-2020**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon aelwydydd Cymru, Llywodraeth Cymru

## Rhwng canol 2019 a chanol 2020

- Gwelwyd cynnydd o tua 16,500 (0.5%) yn y boblogaeth aelwydydd a amcangyfrifwyd yng Nghymru, o gymharu â chynnydd o tua 13,800 (0.4%) rhwng canol 2018 a chanol 2019.
- Gwelwyd cynnydd yn y boblogaeth aelwydydd a amcangyfrifwyd ar gyfer 21 o'r 22 awdurdod lleol, gyda'r cynnydd canrannol mwyaf ym Mro Morgannwg (cynnydd o 1.3%) a Chasnewydd (cynnydd o 1.2%).
- Abertawe oedd yr unig awdurdod lleol lle gwelwyd gostyngiad yn y

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

boblogaeth aelwydydd a amcangyfrifwyd (gostyngiad o 0.2%). Mae hyn yn adlewyrchu amcangyfrifon canol 2020 y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r boblogaeth, a ddangosodd mai Abertawe oedd yr unig awdurdod lleol yng Nghymru i weld gostyngiad yn ei amcangyfrif o'r boblogaeth rhwng canol 2019 a chanol 2020.


## Maint cyfartalog aelwydydd

Nifer y bobl ar bob aelwyd yw maint cyfartalog aelwydydd. Mae'n ffordd o fesur cyfansoddiad aelwydydd ac mae'n ddefnyddiol ar gyfer cymharu gwahanol awdurdodau lleol a chyfnodau amser. Fe'i cyfrifir drwy rannu'r amcangyfrif o boblogaeth aelwydydd â'r amcangyfrif o nifer yr aelwydydd. Nid yw maint cyfartalog aelwydydd yn newid llawer o flwyddyn i flwyddyn, ond mae wedi newid yn sylweddol ers 1991.

- Mae'r maint cyfartalog aelwydydd a amcangyfrifir yng Nghymru wedi bod yn gostwng yn gyffredinol ers 1991, gan adlewyrchu'r cynnydd diweddar mewn aelwydydd un person.
- Yng nghanol 2020, roedd amcangyfrif maint cyfartalog aelwydydd yn 2.26 o bobl fesul aelwyd, yr un fath ag yng nghanol 2019.
- Roedd amcangyfrif maint cyfartalog aelwydydd yn 2.52 yng nghanol 1991 ac yn 2.31 yng nghanol 2011.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 6: Amcangyfrif maint cyfartalog aelwydydd yn ôl awdurdod lleol, canol-2020




Ffynhonnell: Amcangyfrifon aelwydydd Cymru, Llywodraeth Cymru

## Ganol 2020

- Amcangyfrifwyd mai yng Nghonwy (2.16 o bobl fesul aelwyd), Powys (2.17 o bobl fesul aelwyd) a Cheredigion (2.18 o bobl fesul aelwyd) yr oedd maint cyfartalog aelwydydd ar ei isaf o hyd.
- Yng Nghonwy y bu'r amcangyfrif o faint aelwydydd ar ei isaf o holl awdurdodau lleol Cymru ers 2001.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

- Roedd 69.0% o holl aelwydydd Powys yn aelwydydd un person neu ddau berson heb blant, ac yng Ngheredigion a Chonwy y ffigurau cyfatebol oedd 68.8% a 68.7% yn y drefn honno.
- Conwy a Phowys oedd â'r cyfrannau uchaf o bobl 65 oed neu'n hŷn yng Nghymru (27.9% a 27.7% yn y drefn honno) yn ôl amcangyfrifon canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r boblogaeth.
- Amcangyfrifwyd mai ym Merthyr Tudful yr oedd maint cyfartalog aelwydydd ar ei uchaf (2.40 o bobl fesul aelwyd), ac yno y bu uchaf o holl awdurdodau lleol yng Nghymru ers 2007.
- Merthyr Tudful oedd â'r ail gyfran uchaf o bobl 0 i 15 oed neu'n hŷn yng Nghymru (19.2%) yn ôl amcangyfrifon canol blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r boblogaeth.

## Cymharu ag amcanestyniadau 2018 o aelwydydd


Cyhoeddwyd **amcanestyniadau 2018 (awdurdodau lleol) o aelwydydd yng Nghymru** ar 4 Awst 2020 ar gyfer y blynyddoedd rhwng canol 2018 a chanol 2043. Mae'r amcanestyniadau yn rhoi syniad o nifer yr aelwydydd yn y dyfodol tra bo'r amcangyfrifon yn darparu amcangyfrifon yn seiliedig ar dueddiadau diweddar yn y boblogaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Siart 7: Gwahaniaethau canrannol yn nifer yr aelwydydd rhwng amcangyfrifon canol-2020 ac amcanestyniadau sy'n seiliedig ar 2018 ar gyfer 2020




Ffynhonnell: Amcangyfrifon aelwydydd Cymru, Llywodraeth Cymru; amcangyfrifon aelwydydd ar gyfer awdurdodau lleol sy'n seiliedig ar 2018, Llywodraeth Cymru

I raddau helaeth, gellir esbonio gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon o aelwydydd a'r amcanestyniadau o aelwydydd gan wahaniaethau rhwng amcangyfrifon ac amcanestyniadau yn ymwneud â'r boblogaeth, yn hytrach nag unrhyw newidiadau mewn cyfraddau ffurfio aelwydydd. Ar lefel Cymru roedd amcangyfrifon canol 2020 o'r boblogaeth 0.5% yn uwch nag amcanestyniadau 2018 ar gyfer 2020.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Ar gyfer canol 2020:

- ar lefel Cymru, roedd yr amcangyfrifon o aelwydydd tua 7,100 (0.5%) yn uwch nag amcanestyniadau 2018 o aelwydydd
- roedd yr amcangyfrifon o aelwydydd yn uwch na'r amcanestyniadau o aelwydydd ar gyfer 20 o'r 22 awdurdod lleol
- yng Ngheredigion yr oedd y gwahaniaeth canrannol mwyaf rhwng yr amcangyfrifon o aelwydydd a’r amcanestyniadau o aelwydydd, lle'r oedd yr amcangyfrifon 1.7% yn uwch na'r amcanestyniadau (ychydig dros 500 aelwyd)
- Abertawe a Merthyr Tudful oedd yr unig ddau awdurdod lleol yr oedd eu hamcangyfrifon o aelwydydd yn is na'r amcanestyniadau o aelwydydd

## Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Cyhoeddir gwybodaeth lawn am ansawdd a methodoleg yn ddiweddarach yn 2021, gyda mwy o fanylion am yr amcangyfrifon hyn, yn ogystal ag am yr amcanestyniadau o aelwydydd a phoblogaeth ar gyfer awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol (gan gynnwys amcanestyniadau o senarios amrywiol).

Nid yw'r amcangyfrifon hyn o aelwydydd yn gyfrif o union nifer yr aelwydydd yng Nghymru, gan fod rhywfaint o ansicrwydd yn rhan annatod o'r amcangyfrif o'r boblogaeth yn ogystal â chyfraddau ffurfio aelwydydd. Mae amcangyfrifon o’r boblogaeth a chyfraddau ffurfio aelwydydd yn gynyddol ansicr wrth symud ymhellach o'r cyfrifiad diweddaraf, ac mae'r set bresennol o amcangyfrifon o’r boblogaeth ac o aelwydydd yn seiliedig ar Gyfrifiad 2011.

Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol, sy’n gyfrifol am y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, am gyhoeddi data Cyfrifiad 2021 rhwng gwanwyn 2022 a gwanwyn 2023. Caiff yr amcangyfrifon hyn o aelwydydd eu diweddaru yn unol â data’r cyfrifiad diweddaraf unwaith y caiff ei ryddhau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Cymharedd a chysondeb

### Cymharu ag amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth o aelwydydd

Mae Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o’r Boblogaeth hefyd yn rhoi **amcangyfrif o nifer yr aelwydydd yng Nghymru yn ôl math o aelwyd (SYG)**. Mae amcangyfrifon yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn amrywio gan eu bod yn seiliedig ar sampl o ymatebion aelwydydd yng Nghymru bob blwyddyn.

Mae'r diffiniadau a ddefnyddir mewn perthynas ag aelwydydd yn debyg iawn i ddiffiniadau Llywodraeth Cymru wrth amcangyfrif aelwydydd (i gael rhagor o wybodaeth, gweler yr **wybodaeth am fethodoleg ac ansawdd (SYG)**). Mae'r amcangyfrifon diweddaraf o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn debyg iawn i amcangyfrifon swyddogol Llywodraeth Cymru o aelwydydd, gan amrywio yn ôl awdurdod lleol a math o aelwyd. Fodd bynnag, credwn mai’r amcangyfrifon aelwydydd Llywodraeth Cymru hyn yw'r ffynhonnell swyddogol ar gyfer amcangyfrif nifer yr aelwydydd yng Nghymru.

### Amcangyfrifon o aelwydydd ledled y DU

Cyhoeddir amcangyfrifon o aelwydydd ar gyfer Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cofnodion Cenedlaethol yr Alban ac Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon. Ceir rhagor o wybodaeth yn:

Lloegr: **Amcanestyniadau o aelwydydd (SYG)**

Yr Alban: **Amcangyfrifon o aelwydydd (Cofnodion Cenedlaethol yr Alban)**

Gogledd Iwerddon: **Amcangyfrif o'r boblogaeth ac aelwydydd (Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon)**

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyfrifir yr amcangyfrifon o aelwydydd Cymru gan ddefnyddio dull gwahanol i sut y cynhyrchir amcangyfrifon o aelwydydd Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae arweiniad ar y gwahaniaethau rhwng amcangyfrifon pedair gwlad y DU o'u haelwydydd wedi'i gynnwys yn adroddiad '**Household and Dwelling Estimates Across the UK (Cofnodion Cenedlaethol yr Alban)**'.

### Data cysylltiedig am Gymru

Mae'r amcanestyniadau o aelwydydd Cymru i'w gweld ar **StatsCymru**.

**Cyhoeddir amcangyfrifon o boblogaeth Cymru a Lloegr gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol** a gellir eu gweld ar wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae'r amcangyfrifon a'r amcanestyniadau o boblogaeth Cymru ar lefel awdurdod lleol a pharc cenedlaethol i'w gweld ar **StatsCymru**.

Mae ystadegau tai eraill ar gyfer Cymru, gan gynnwys **amcangyfrifon o'r stoc anheddau** ac **amcangyfrifon o'r anghenion tai ychwanegol** i'w gweld ar **wefan Ystadegau ac Ymchwil**.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae **Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig** wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos cydymffurfiaeth â'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau** .

Golyga statws Ystadegau Gwladol fod yr ystadegau swyddogol yn bodloni'r safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus.

Dylai pob ystadegyn swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon hynny â'r Awdurdod ar unwaith. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir ailddyfarnu'r statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Cadarnhawyd y byddai'r ystadegau hyn yn parhau i gael eu dynodi'n Ystadegau Gwladol ym mis Awst 2020 yn dilyn **gwiriad gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau**. Y tro diwethaf i'r ystadegau hyn gael eu **hasesu'n llawn yn erbyn y Cod Ymarfer oedd yn 2011 (SYG)**.

Ers yr adolygiad diweddaraf gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ac wedi gwneud y gwelliannau canlynol:

- cynnwys manylion ychwanegol gan ddefnyddio amrywiaeth o dablau a siartiau, gan gynnwys cyhoeddi data ar wefan StatsCymru
- gwella sut y cyflwynir yr ystadegau, gan gynnwys cyhoeddi mewn fformat html i ddiwallu anghenion defnyddwyr
- lleihau'r mynediad a ganiateir cyn rhyddhau'r data, gan sicrhau mwy o hygrededd

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant er mwyn sicrhau Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach a chyfrifol ar lefel fyd-eang, â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran 10 (1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Senedd. Cafodd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod ym mis Mawrth 2016. Defnyddir yr amcangyfrifon yn y datganiad hwn i gyfrifo'r gyfradd ar gyfer dangosydd 34: Nifer yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

am bob 10,000 o aelwydydd.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Rhaid cyfeirio at ddangosyddion cenedlaethol o dan y Ddeddf mewn dadansoddiadau o lesiant lleol a baratoir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau o lesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Martin Parry
Ffôn: 03000 250373
E-bost: **ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SFR 290/2021

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Ynghylch y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gopi o'r dudalen we **Amcangyfrifon aelwydydd: canol-2020** a lawrlwythwyd.

Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch; darllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://llyw.cymru/amcangyfrifon-aelwydydd-canol-2020-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.